# Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-07-10 (p3): 28 Ebrill 2010**

## Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Gynllun Glastir – gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig

Rwy'n ddiolchgar i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig am ddarparu canfyddiadau ei ymchwiliad byr i gynllun Glastir.

Rwyf wedi ystyried y canfyddiadau, ac rwy'n falch o'r cyfle i ymateb i'r pwyntiau a godwyd gennych. Mae'n dra thebyg y byddai wedi bod yn bosibl imi ymdrin â rhai o'r materion hyn yn uniongyrchol petai'r is-bwyllgor wedi rhoi'r cyfle imi ddarparu tystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad. Mae fy swyddogion yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y cynllun yn diwallu amcanion Llywodraeth y Cynulliad, ei fod yn hygyrch ac yn hawdd i'w ddefnyddio, ac yn cael ei gyflenwi'n unol â'r amserlen a osodwyd gennyf. Drwy wneud hynny, maen nhw'n parhau i dreulio cryn amser yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid.

Rwy'n hyderus y gwelwch fod y cynnydd sylweddol a wnaed i ddatblygu Glastir ers ichi gael tystiolaeth ym mis Chwefror wedi ymdrin â'r mwyafrif o'r pryderon a nodwyd yn eich llythyr. Rwyf hefyd yn parhau'n hyderus y gellir cyflenwi Glastir yn llwyddiannus yn unol â'r amserlen a osodwyd gennyf.

### 1) Hygyrchedd

Rhaid i'r cynllun fod yn agored i ystod eang o ffermwyr er mwyn cyflawni ei amcanion, ac mae'r Is-bwyllgor yn annog Llywodraeth y Cynulliad i addasu'r system bwyntiau er mwyn gwneud y cynllun yn fwy hygyrch.

### Ymateb

Bydd sicrhau bod Glastir yn hygyrch i ystod eang o ffermwyr ledled Cymru yn bwysig er mwyn iddo lwyddo. Mae'r treialon ar ffermydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn er mwyn nodi ym mha feysydd y gallai esbonio'r dewisiadau'n well arwain at fwy o ddefnydd ar y cynllun. Yn ogystal â hynny, mae fy swyddogion wedi ailwampio 12 o'r amodau yn sgil ymateb y ffermwyr eu hunain i'r treialon.

Yn ogystal â hynny, mae archwiliad allanol o'r costau sy'n sylfaen i'r system bwyntiau wedi arwain at gynyddu'n sylweddol nifer y pwyntiau a ddyrennir am fodloni rhai o'r amodau. Rwy'n parhau'n argyhoeddedig y bydd y mwyafrif helaeth o'r ffermwyr yng Nghymru yn gallu ymuno â chynllun Glastir os byddant yn dewis gwneud.

### 2.)Adnoddau a Chapasiti

Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth y Cynulliad i edrych eto ar ei phenderfyniad i beidio â darparu cymorth gan swyddog prosiect ar gyfer y cynllun lefel sylfaenol, ac i ystyried a fydd modd i'w swyddfeydd ateb y galw cynyddol am gymorth gan ffermwyr a ddaw yn sgil hynny.

### Ymateb

Penderfynais beidio â phenodi swyddogion prosiect ar gyfer elfen Cymru gyfan Glastir am ddau reswm.

Yn gyntaf, byddai penodi digon o swyddogion prosiect i gefnogi nifer y ffermwyr y disgwylir iddynt ymaelodi â'r elfen Cymru gyfan yn arwain at orbenion annerbyniol o uchel. Nid ellir cyfiawnhau hyn yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Yn ail, yn ystod yr adolygiad, un o sylwadau cyffredin y ffermwyr oedd bod ganddynt ddigon o wybodaeth o reoli tir i gyflawni'r canlyniadau mae'r llywodraeth am eu gweld, a hynny heb y pwyslais gormodol ar amodau sydd, yn eu barn hwy, yn wir yn achos Tir Gofal. Mae elfen Cymru gyfan Glastir wedi cael ei ddatblygu'n seiliedig ar hyn.

Mewn perthynas ag adnoddau mewn Swyddfeydd Rhanbarthol, mae fy swyddogion wedi ystyried yn ofalus yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau yr ymdrinnir â phob cais yn briodol. Rwy'n fodlon bod y newidiadau angenrheidiol wedi cael eu gwneud, ac y bydd modd inni ymdopi.

### 3.) Hawlio ar yr un tir ddwywaith

Hoffem i Lywodraeth y Cynulliad egluro'i phenderfyniad i ddod â thaliadau i ben yng Nghymru pan fydd mwy nag un ffermwr yn defnyddio'r un tir. Mae'r Pwyllgor hefyd yn annog Llywodraeth y Cynulliad i gynnal asesiad ar effaith y newid hwn ar dirfeddianwyr a thenantiaid yng Nghymru, ac ar effaith debygol hyn ar nifer y ffermwyr sy'n gwneud cais i ymuno â'r cynllun.

### Ymateb

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi adroddiadau archwilio sy'n feirniadol o'r arfer bresennol o hawlio ar yr un tir ddwywaith yn y DU. Er bod y DU wedi ceisio amddiffyn yr arfer bresennol hon, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn mynnu o hyd nad oes modd i fwy nag un ffermwr fodloni meini prawf cynlluniau gwahanol ar un parsel o dir ar unrhyw adeg benodol. Fel Llywodraeth gyfrifol, rhaid inni fynd ati i leihau'r perygl y bydd Cymru'n ennyn cosb ariannol.

Yn amodol ar unrhyw gamau pellach gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn achos yr holl gynlluniau presennol rwyf wedi cytuno i roi'r gorau'n raddol i'r arfer hwn o hawlio ar yr un tir ddwywaith, gyda'r nod o ddatrys y broblem erbyn diwedd 2013. Rhaid i'r Pwyllgor sylweddoli na allaf ganiatáu i gynlluniau newydd (h.y. Glastir a'r Cynllun Troi at Ffermio Organig) gael eu llunio a'u rhoi ar waith os ydynt yn cynnwys gwrthdaro o ran defnydd tir, am y bydd hynny'n peryglu cyllidebau Cymru. Rydym wedi rhoi gwybod i'r diwydiant am hyn, ac rwyf wedi gofyn i ffermwyr ystyried eu harferion gwaith yn y cyd-destun hwn ac yng nghyd-destun (holl) reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd. Rydym wedi cyhoeddi sawl erthygl yng nghylchgrawn GWLAD i rybuddio ffermwyr am y newid hwn, rydym wedi ysgrifennu at bawb sy'n gwneud cais i'r Cynllun Taliad Sengl a'r Cynllun Amaeth-amgylcheddol i amlinellu'r newidiadau sydd ar y gweill, ac wedi cyhoeddi adran Cwestiynau ac Atebion ar ein gwefan i roi gwybod i ffermwyr beth i'w wneud i sicrhau eu bod yn parhau'n gymwys o dan y cynlluniau perthnasol. Wrth reswm, bydd angen trosglwyddo peth tir a/neu hawliau o dan Gynllun y Taliad Sengl i sicrhau bod ffermwyr yn manteisio i'r eithaf ar botensial y tir i gynhyrchu incwm. Trwy roi'r gorau i'r arfer hwn cam wrth gam, rwyf o'r farn y bydd gan ffermwyr ddigon o amser i wneud y trefniadau gofynnol.

### 4.) Gwaith cyfalaf

Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddarparu grantiau cyfalaf felly tuag at gostau'r gwaith gosod ar bob lefel o gynllun Glastir, ac nid ar y lefelau uchaf yn unig fel y cynigir ar hyn o bryd.

### Ymateb

Mae'r costau cyfalaf ar gyfer elfen Cymru gyfan y cynllun wedi'u pennu yn y gyfradd taliadau sefydlog. Nod y dewisiadau o dan yr elfen Cymru gyfan yw cadw'r costau cyfalaf yn gymharol isel, yn wahanol i'r elfen wedi'i thargedu lle mae angen llawer mwy o waith i gyflwyno rhai o'r dewisiadau.

### 5.) Tir comin

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth y Cynulliad edrych eto ar ei chynnig i ddibynnu ar Gymdeithasau Pori i roi cynllun Glastir ar waith ar dir comin, ac y byddai rhoi Deddf Tiroedd Comin 2006 ar waith yn llawn yn arwain at fwy o lwyddiant yn hyn o beth.

### Ymateb

Mae Rheoliad y Comisiwn (EC) 1698/2004 yn ei gwneud yn ofynnol inni ddangos y gallu i reoli fel rhagofyniad ar gyfer gwneud taliadau amaeth-amgylcheddol. Rhaid inni felly ddangos yn eglur bod yna gysylltiad rhwng yr arian a delir a chanlyniad penodol mewn lleoliad penodol. Os yw'r lleoliad hwnnw'n dir comin â mwy nag un porwr, nid oes unrhyw ffordd ymarferol o wneud hyn ar sail porwr unigol. Rwy'n cydnabod potensial tiroedd comin i gyfrannu at amcanion amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad, ac mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n ddiwyd i ddwyn perswâd ar y Comisiwn Ewropeaidd mai cymdeithasau pori yw'r ffordd orau o ddangos y gallu i reoli. Nid yw'r cymdeithasau arfaethedig hyn yn ateb delfrydol, ond maent yn ffordd ymarferol o geisio sicrhau y bydd modd i borwyr ddefnyddio Glastir os dymunant wneud hynny.